Cymru Yfory
Tomorrow's Wales

Papur 2 - Confensiwn Cymru Gyfan: ei Waith a'i Gasgliadau

Sefydlu a Gweithgarwch

Ym Mehefin 2007 ymrwymodd Llywodraeth Glymblaid Llafur a Phlaid Cymru:

- i ymgyrchu o blaid canlyniad llwyddiannus i refferendwm ar bwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol ar sail Rhan 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006;
- i sefydlu Confensiwn Cymru Gyfan i baratoi'r tir ar gyfer hynny.

Rhoddwyd y Cylch Gorchwyl canlynol i'r Confensiwn:

- *Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r trefniadau presennol ar gyfer llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru a darpariaethau Rhan 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u goblygiadau o ran dyfodol llywodraethu Cymru*
- *Hwyluso ac ysgogi ymgynghoriad eang, trylwyr a chyfrannol ar bob lefel o gymdeithas Gymreig ar bwnc pwerau deddfu sylfaenol*
- *Paratoi dadansoddiad o'r safbwyntiau a leisiwyd a'r dystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r broses hon*
- *Asesu lefel y gefnogaeth dros roi pwerau deddfu sylfaenol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru*
- *Adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru'n Un ar unrhyw ganfyddiadau, gydag argymhellion perthnasol ar gyfer cynnal refferendwm.*

Penodwyd Syr Emyr Jones Parry yn gadeirydd y Confensiwn, a Phwyllgor Gweithredol o 18 i gynllunio a gweithredu'r rhaglen waith. Yn dilyn proses eang ac amrywiol o gasglu tystiolaeth a gwrando ar farn y bobl, fe gyhoeddodd y Confensiwn ei adroddiad yn Nhachwedd 2009 (fe gewch fanylion am weithgarwch y Confensiwn yn Atodiadau C – H yr Adroddiad).

Rhai Casgliadau Allweddol

- Y dylid symud ymlaen i ddod â Rhan 4 Deddf Llywodraeth Cymru i rym
- Y byddai effaith ariannol gwneud hynny yn niwtral
- Bod cryn anwybodaeth ymysg y cyhoedd ynghylch y ffordd y mae'r Cynulliad yn deddfu a bod angen esbonio hyn mewn 'iaith glir a hygyrch'
- Bod 72% o bobl Cymru o blaid i'r Cynulliad gael y pwer i ddeddfu, naill ai drwy'r trefniadau presennol, neu i raddau helaethach
- Yn ôl ymchwil y Confensiwn y byddai 47% yn pleidleisio dros weithredu Rhan 4 mewn refferendwm a 37% yn erbyn

Dyfyniadau

“ Rydym wedi ein hargyhoeddi bod Rhan 4 yn cynnig manteision sylweddol o’i chymharu â’r trefniadau presennol yn Rhan 3. Byddai’n golygu gwell effeithlonrwydd, yn caniatau i’r ddeddfwriaeth gael ei drafftio mewn ffordd strategol, yn rhoi mwy o eglurder, yn fwy cyson â rheol y gyfraith a thraddodiad democrataidd, ac yn adlewyrchu aeddfedrwydd datblygol Cynulliad Cenedlaethol Cymru” (Adroddiad y Confensiwn para 6.2.2)

“Mae pobl Cymru wedi derbyn datganoli ... Ymddengys fod cryn archwaeth am fwy o ddatganoli, gyda chefnogaeth gadarn o blaid pwerau deddfu sylfaenol” (para 5.6.1)

Cost Cyflwyno Rhan 4

Yn ôl y dystiolaeth a dderbyniodd y Confensiwn:

- byddai cael gwared ar y broses bresennol (Rhan 3) o gyflwyno’r pwer i ddeddfu i’r Cynulliad **yn arbed £1.98m y flwyddyn;**
- byddai modd pasio rhwng deg a deuddeg Mesur Cynulliad y flwyddyn a chael arbenigedd cyfreithiol ychwanegol am ddim mwy na’r arbediadau yna;
- byddai rhai arbediadau ychwanegol yn Whitehall a San Steffan (gweler para 3.2.5 – 3.2.8).

Nodyn: Mae adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan ar gael ar y we drwy ymweld â www.confensiwncymrugyfan.org.